



Judith Jones  
Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad  
Planning and Countryside Department  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Uned 5, Parc Busnes Triangle  
Pentrebach  
Merthyr Tudful  
CF48 4TQ

21 Awst 2018

Annwyl Judith,

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Adolygiad 1af y Cynllun Adneuo - Ymgynghoriad Rheoliad 17: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch ichi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru am Gynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CDLI). Rydym yn sylweddoli bod paratoi CDLI a'r dystiolaeth ategol yn dipyn o dasg ac yn cydnabod yr holl waith a wnaed gan eich Awdurdod hyd yma o ran symud y Cynllun yn ei flaen o'r Strategaeth a Ffefrir i'r cam Adneuo.

Yn y Strategaeth a Ffefrir, (Rheoliad 15) roedd ein sylwadau yn tynnu sylw at amrywiol faterion oedd angen mynd i'r afael â hwy yn ein barn ni os oedd eich cynllun newydd i gael ei ystyried yn 'gadarn'. Wrth symud y cynllun ymlaen, rydym yn falch o weld bod eich awdurdod wedi ystyried mwyafrif y sylwadau ac wedi paratoi cynllun Adneuo a thystiolaeth ategol sy'n glir ac yn gryno, gan gynnwys prif agweddau pob maes pwnc. Mae'r dull hwn yn cael ei groesawu gan Lywodraeth Cymru.

Wrth symud ymlaen i archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd dangos bod y strategaeth yn cael ei chyflawni yn hanfodol. Mae'r system gynllunio o ran datblygiadau yng Nghymru wedi'i harwain gan dystiolaeth; gan ddangos bod llunio cynllun yn ôl y dystiolaeth yn ofniad allweddol i'r archwiliad. Mae dangos pob safle ar y cynllun wedi'u cyflawni, a'u bod yn hyfyw, yn hanfodol, yn enwedig datblygiad sy'n cael ei gynnig ar safleoedd adfywio ar raddfa fawr a dyraniadau tai/cyflogaeth mawr eraill sy'n hanfodol i strategaeth/amcanion y cynllun.

Heb ragfarnu'r archwiliad annibynnol na chwaith bwerau'r Gweinidog a'r archwiliad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y broses o lunio'r cynllun. O ran cynllun cefnogi y sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, rydym yn falch o'ch hysbysu **nad oes gennym unrhyw wrthwynebiadau sylfaenol ar pa mor gadarn yw'r cynllun na'i ddehongliad o'r polisi cynllunio cenedlaethol, gwrthwynebiad Categori C**. Mae ein sylwadau isod yn gysylltiedig ag eglurder, y dylid eu hystyried cyn yr archwiliad:

- **Ardal Adfywio Strategol Hoover (HSRA)** - I sicrhau datblygiad cynhwysfawr ac egwyddorion dylunio da dylai'r awdurdod ail-adrodd prif egwyddorion y Fframwaith/Cynllun Meistr ym Mholisi SW6. Gan bod rhannau o'r safle wedi'u lleoli mewn ardal llifogydd C2, mae'r ardaloedd hynny yn anaddas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn unol â TAN 15 a dylid gwneud hyn yn glir ym Mholisi EcW2.
- **Darparu a Gweithredu** - I sicrhau bod y cyflenwad tai yn y cynllun yn cael ei ddarparu a'i fonitro yn effeithiol, dylai'r trywydd tai (Ffigur 1) a thabl y cyflenwad tir ar gyfer tai (Tabl B) a bennir yn y papur 'Cyflenwad a Thrywydd y Tir ar gyfer Tai' gael ei gynnwys yn atodiadau y CDLI, gan drawsgyfeirio yn y cyfiawnhad rhesymegol at Bolisi SW3. Dylai cyfnodau y dyraniadau tai fel a bennir yn Nhabl C y papur uchod gael eu cynnwys hefyd fel colofn ychwanegol i'r tabl ym Mholisi SW3.
- **Elfennau y Cyflenwad Tai** - I nodi'n glir yr holl elfennau yn y tai gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu a'r rhai sydd â chaniatâd cynllunio, dylai'r Awdurdod ddisodli Tabl 1 yn y cynllun Adneuo gyda Tabl 1 yn y Strategaeth a Ffefrir, gan ddiweddarau hwn i Ebrill 2018. Dylai pob elfen (yn rhesi A-F) gael eu nodi yn y llwybr gan sicrhau nad oes cyfrif dwbl.
- **Yr Angen a Tharged Tai Fforddiadwy** - Dylai'r angen am dai fforddiadwy o 5,505 uned dros gyfnod y cynllun gael ei amlinellu yn y cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi SW2. Dylai'r targed i gael ei gyflawni drwy'r system gynllunio (a amlinellir ym Mholisi SW2) fod yn seiliedig ar y gofyniad o ran tai o 2,250 o unedau, nid y ddarpariaeth. A yw'r targed cywir yn ostyngiad o 25% o'r 261 o unedau sy'n cael eu nodi ar hyn o bryd?
- **Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA)** - Dylai'r awdurdod sicrhau bod eu Diweddariad GTANA (2018) wedi ei lofnodi gan Weinidogion Cymru cyn yr archwiliad LDP gan fodloni unrhyw anghenion, drwy ddyrannu safleoedd, yn ystod cyfnod y cynllun.
- **Ynni Adnewyddadwy** - Nid yw'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA) yn glir ar y cyfyngiadau sydd wedi'u defnyddio a sut y mae hyn yn cyd-fynd â'r fethodoleg Offer a dull Llywodraeth Cymru o ddynodi Ardaloedd Chwilio Strategol, yn enwedig mewn perthynas ag ynni solar a chysylltedd y grid ble y mae pellter o 2km wedi'u defnyddio yn hytrach na'r 10km safonol. Dylai'r awdurdod restru'n glir y cyfyngiadau ac unrhyw ardaloedd clustogi sydd wedi'u defnyddio yn ogystal â'r rhesymeg ar gyfer y dull hwn o weithio. Dylai'r tablau cryno ar gyfer gwres a thrydan adnewyddadwy sydd wedi'u hamlinellu yn yr atodiad i'r REA (Ffigurau 12 & 13) gael eu gosod yn y cyfiawnhad rhesymedig i Bolisi EcW8 a'i gynnwys yn y fframwaith monitro.
- **Clustogfa Mwynau** - Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (rhagwelir y caiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni) ond yn galw am ddiogelu adnoddau glo craidd, ac os y caiff ei gyhoeddi cyn neu yn ystod yr archwiliad, dylid adlewyrchu hyn yn y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau dull o ddatblygu yn ôl cynllun yng Nghymru. Rwy'n hyderus y bydd y sylwadau hyn o fudd ichi i sicrhau y bydd eich Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn' ac yn cael ei fabwysiadu yn dilyn archwiliad annibynnol. Cysylltwch â mi os ydych yn dymuno cyfarfod a thrafod materion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn i'ch Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo.

Yn gywir,



**Mark Newey**  
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**  
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**